**Y Pwyllgor Cynaliadwyedd – 3 Chwefror 2011**
**SC(3)-03-11 p3**

# Prif Ffrydio Datblygu Cynaliadwy yn y Portffolio Busnes a'r Gyllideb

## Crynodeb

1. Gwahoddir Pwyllgor Cynaliadwyedd y Cynulliad i nodi'r cynnydd a wnaed o ran prif ffrydio Datblygu Cynaliadwy o fewn y Portffolio Busnes a'r Gyllideb.

## Cyflwyniad

2. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r cynnydd a wnaed o ran prif ffrydio Datblygu Cynaliadwy o fewn y portffolio Busnes a'r Gyllideb. Mae gwaith o fewn y portffolio yn galluogi gweithgarwch ledled Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymru, sy'n mynd â Datblygu Cynaliadwy yn ei flaen. Rhoddir enghreifftiau yma o weithgarwch o fewn yr adran Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad (SPFP); yr Adran Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol (PPCS); a'r Adran Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus (PSI).

3. Mae ein nod o ganoli gwasanaethau cyhoeddus ar y dinesydd a cheisio cyfiawnder cymdeithasol ar gyfer pobl Cymru yn greiddiol i'r dulliau a nodir yn Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned a'r Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd: Rhaglen Weithredu, yn enwedig y cysyniad o wneud datblygu cynaliadwy yn 'egwyddor drefnu ganolog Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector cyhoeddus yng Nghymru.'

## Cyllidebu Strategol

4. Mae cyfrifoldebau Cyllidebu Strategol yn cynnwys cyfrifoldeb corfforaethol dros y Gyllideb Ddrafft a Therfynol a gwaith Cynllunio Corfforaethol.

5. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gynllun corfforaethol cyflawn sy'n seiliedig ar gyflenwi blaenoriaethau strategol y Llywodraeth newydd. Bydd hyn yn caniatáu cyflenwi mwy effeithiol gyda gwell ffocws, gwell tystiolaeth a gwerthuso, a gwell cydweithio mewn partneriaeth. Byddwn yn gallu arddangos yr ymyriadau a'r adnoddau a fydd yn cyfrannu at ddarparu'r blaenoriaethau hyn, ac yn gallu bod mewn sefyllfa i werthuso effeithiolrwydd yn glir dros amser.

6. Amlygwyd ein ffocws ar gyflenwi canlyniadau er mwyn gwella lles pobl yng Nghymru yn y ddogfen Gyllideb Ddrafft a gyhoeddwyd yn Nhachwedd. Gwnaeth y Cabinet ymrwymiad clir i gyllideb a oedd yn rhoi blaenoriaeth i swyddi pobl ac i'r gwasanaethau maent yn eu derbyn, ond hefyd yn amddiffyn grwpiau agored i niwed. Ynghyd â'n gwaith ar ddatblygu ein prosesau cynllunio i ganolbwyntio ar gyflawni gwell canlyniadau, mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i hybu lles pobl Cymru yn y tymor hwy. Roedd y Gyllideb Ddrafft yn darparu cymorth penodol ar gyfer y meysydd canlynol:
    - Roedd yn diogelu cyllid ar gyfer **ysgolion a sgiliau** o 1% uwchlaw newidiadau i DEL Cymru, ac yn diogelu gwariant ar addysg o fewn y Grant

Cynnal Refeniw yn y Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn yr un ffordd;

- Roedd yn diogelu'r gyllideb gyffredinol **iechyd a gwasanaethau cymdeithasol** rhag gostyngiadau ariannol yn 2011-12 a 2012-13 gyda chynnydd ariannol bychan yn 2013-14;
- Ym maes **tai**, rydym wedi targedu cymorth ar gyfer y bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas drwy liniaru effaith y toriadau ar gyllidebau refeniw tai, yn fwyaf nodedig drwy'r cynllun Cefnogi Pobl;
- Estynnwyd yr un lefel o ddiogelu i'r **gwasanaethau cymdeithasol** ag i ysgolion, sgiliau a gofal iechyd eilaidd ac iechyd cymunedol, gan olygu y bydd cyllid i wasanaethau cymdeithasol a ddyrannwyd i lywodraeth leol yn y Grant Cynnal Refeniw yn codi mwy na 3% yn ystod y tair blynedd nesaf; ac
- Fe wnaethom gadarnhau ein hymrwymiad ymlaen llaw i gynnal buddsoddiad mewn **budd-daliadau cyffredinol -** presgripsiwn am ddim**,** brecwast am ddim yn yr ysgol, llaeth am ddim yn yr ysgol, tocynnau teithio rhatach a nofio am ddim. Bydd cyllidebau ar gyfer y meysydd hyn yn cynyddu 3.7% dros y tair blynedd nesaf.

7. Mae'r ymdrechion hyn i wella effeithiolrwydd ein hymyriadau a'u heffaith o ran gwella bywydau pobl yn allweddol ar adeg o gyni ariannol, ac yn rhywbeth y byddwn yn canolbwyntio arno yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi yn fodel da i ddangos sut y gallwn gydweithio, arloesi a chyflenwi'n well a gweithio'n fwy effeithlon.

**<u>Y Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi</u>**

8. Mae'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn wynebu cryn heriau yn y tymor byr a'r hirdymor. Mae disgwyliadau uwch, newidiadau demograffig a thechnolegol wedi cynyddu'r galw a'r costau o ddarparu gwasanaethau. Ynghyd â'r heriau ariannol llym, golyga hyn y gall rhai modelau presennol o gyflenwi gwasanaethau fod yn anghynaliadwy, yn enwedig o ran diwallu anghenion y bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas.

9. Sefydlwyd y Rhaglen Effeithiolrwydd ac Arloesi yn rhan o'r ymateb cydwasanaethau cyhoeddus i ymateb i her newid. Nod y Rhaglen yw galluogi gwasanaethau cyhoeddus i ddod yn fwy effeithlon a chefnogi diwygiadau ac adolygiadau ehangach mewn gwasanaethau cyhoeddus sydd ar waith mewn gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg a llywodraeth leol, gan eu cefnogi i fod yn fwy effeithiol o ran gwella canlyniadau i bobl Cymru, nawr ac yn y dyfodol.

10. Mae'r Rhaglen yn adeiladu ar y gwerthoedd a sefydlwyd yn Creu'r Cysylltiadau (2004), ac Adolygiad Beecham (2006), sy'n gosod llwybr clir ar gyfer cyflenwi gwasanaethau sydd o safon fyd-eang ac yn canolbwyntio ar bobl, a gefnogir gan werthoedd cyfiawnder cymdeithasol a datblygu cynaliadwy.

11. Sefydlwyd y Bwrdd Effeithiolrwydd ac Arloesi i ddatblygu a goruchwylio'r rhaglen. Cadeirydd y Bwrdd yw'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb a'i aelodau'n cynnwys arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus o lywodraeth leol, y trydydd sector, GIG Cymru a phartneriaid cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae nodau datblygu cynaliadwy wedi'u nodi'n glir yng Nghylch Gorchwyl y Bwrdd, 'Diben y

Bwrdd yw… sicrhau'r manteision eithaf i economi, amgylchedd a phobl Cymru drwy gynllunio a chyflenwi gwasanaeth .' (Cylch Gorchwyl y Bwrdd Effeithiolrwydd ac Arloesi, cytunwyd ar 18 Mawrth 2010).

12. Mae'r Rhaglen yn canolbwyntio ar saith maes blaenoriaeth: caffael a chomisiynu cydweithredol; TGCh ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus; trawsnewid y busnes; rheoli asedau cenedlaethol; modelau newydd o ddarparu gwasanaeth; arweinyddiaeth; a datblygu'r gweithlu. Bydd y ffrydiau gwaith yn adnabod enghreifftiau o arloesi sy'n hybu canlyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol gyfochrog ag arbedion cost, gan ymgorffori amcanion Datblygu Cynaliadwy mewn ffyrdd ymarferol iawn. Rhai enghreifftiau yw:

Economi:

- Cyflenwi gyfochrog â'r Rhaglen Adnewyddu'r Economi. Er enghraifft, drwy'r ffrwd waith caffael a chomisiynu cydweithredol dan arweiniad Gwerth Cymru (ceir mwy o fanylion am hyn yn yr adran ar Gwerth Cymru isod).
- Cydweithio ar draws y gwasanaethau cyhoeddus a chyda'r sector preifat i gefnogi newid y gweithlu sector cyhoeddus a helpu i gefnogi'r economi. Er enghraifft drwy ddatblygiad y gwasanaeth Newid Gyrfa sy'n cael ei ddatblygu gan y ffrwd waith datblygu'r gweithlu i gefnogi staff yn y sector cyhoeddus i waith arall neu hyfforddiant.

Cymdeithas:

- Gwneud sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yn fwy effeithiol ac effeithlon, drwy brosesau symlach a gwell sy'n rhyddhau adnoddau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau rheng flaen. Er enghraifft, ystyried posibiliadau gweithredu dulliau cynhyrchu 'Main' a meddwl trwy systemau o fewn y ffrwd waith trawsnewid y busnes.
- Mynd i'r afael â'r pwysau mwyaf ar wasanaethau cyhoeddus, nawr ac yn y dyfodol, gan sicrhau bod cynllunio a chyflenwi gwasanaethau wedi'u halinio ag anghenion hirdymor. Er enghraifft, edrych ar fodelau arfer gorau byw'n annibynnol o fewn y ffrwd waith Modelau Newydd o Ddarparu Gwasanaeth.

Yr Amgylchedd:

- Uchafu'r effeithiau amgylcheddol cadarnhaol yn deillio o welliannau i wasanaethau cyhoeddus. Er enghraifft, lleihau ôl troed ecolegol sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus drwy gydleoli gwasanaethau a rheoli ystadau yn fwy effeithiol, drwy'r ffrwd waith rheoli asedau cenedlaethol.

13. Cyhoeddir y ddogfen 'Ymateb i Her Newid: Ein Dull ar y Cyd o Ymagweddu at Effeithlonrwydd ac Arloesi yn y Gwasanaethau Cyhoeddus yn Chwefror 2011, ar ôl bod drwy'r porth i bolisïau a'r prosesau sgrinio'r effaith ar gydraddoldeb.

14. Gyda chyswllt agos â'r Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi, mae Byrddau Gwasanaethau Lleol ledled Cymru wedi datblygu dulliau arloesol o hybu datblygiad cynaliadwy. Er enghraifft, drwy weithio gyda phartneriaid allweddol megis Heddlu Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth y GIG a Choleg Glannau Dyfrdwy, mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir y Fflint yn gwneud cynnydd da tuag at ei darged o ostyngiad 3% flwyddyn ar ôl blwyddyn yn ei allyriadau carbon erbyn 2011. Yng Ngwynedd, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi gosod targedau i

ostwng allyriadau carbon o ynni a thrafnidiaeth 15-20% erbyn 2013. Mae Byrddau Gwasanaethau Lleol Sir Fynwy, Powys a Sir Gaerfyrddin wedi gosod ffocws tebyg ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cydgysylltiedig er mwyn sicrhau gostyngiad mesuradwy mewn allyriadau carbon. At hyn, mae Rhwydwaith Arloesi ar Gynaliadwyedd y Byrddau Gwasanaethau Lleol, ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Garbon yn gweithredu fel fforwm arweiniol ar gyfer rhannu a datblygu dulliau newydd o ymagweddu at ddatblygu cynaliadwy ar lefel leol.

**<u>Cynllun Gofodol Cymru</u>**

15. Cydnabyddir y cysylltiadau clos rhwng datblygu cynaliadwy a Chynllunio Gofodol yn Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Cynllun Datblygu Cynaliadwy, wrth ddisgrifio diben y cynllun Datblygu Cynaliadwy: 'Mae'n gofyn am lywodraethu cydlynus â ffocws ar yr hirdymor ac ar wasanaethu dinasyddion, gan gefnogi'n uniongyrchol yr amcanion yr ydym eisoes wedi'u pennu yng Nghynllun Gofodol Cymru ac ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Lleol ar draws Cymru.'

16. Mae hyn hefyd i'w weld yn ei gynnwys ac yn y broses o'i ddatblygu a'i roi ar waith. Nodir yn y cyflwyniad i ddiweddariad 2008: 'Un o egwyddorion Cynllun Gofodol Cymru yw y dylai datblygu fod yn gynaliadwy. Mae datblygu cynaliadwy yn golygu gwella lles ac ansawdd bywyd drwy integreiddio amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yng nghyd-destun defnydd mwy effeithlon o adnoddau naturiol. Amcan Cynllun Gofodol Cymru yw sicrhau datblygiad cynaliadwy drwy ei Strategaethau Ardal yng nghyd-destun Cynllun Datblygu Cynaliadwy statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru.'

17. O ganlyniad, mae wedi'i strwythuro o amgylch y themâu canlynol, sy'n gorgyffwrdd:
    - Creu cymunedau cynaliadwy.
    - Hybu economi gynaliadwy.
    - Gwerthfawrogi ein hamgylchedd.
    - Sicrhau hygyrchedd cynaliadwy.
    - Parchu nodweddion unigryw.

18. Mae'r prosiect Rhanbarth Amgylchedd Rhwydweithiol yn Ne-ddwyrain Cymru yn enghraifft o'r modd y rhoddwyd egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar waith yn ymarferol. Mae'r prosiect arloesol hwn wedi goleuo 'Cymru Fyw', y Fframwaith newydd ar gyfer ein Hamgylchedd Naturiol.

19. Ymateb i Her Lleihau Carbon: Mae diweddariad 2008 yn cynnwys ymrwymiad y bydd pob ardal cynllun gofodol yn datblygu cynlluniau ymarferol i symud tuag at fod yn rhanbarth carbon isel. Nodwyd pwysigrwydd mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd mewn ffordd wahaniaethol o ran ardal yn Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd, a gyhoeddwyd yn 2010.

20. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cydweithio â'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy a phartneriaid eraill er mwyn symud yr ymrwymiad hwn yn ei flaen. Cam gyntaf y broses oedd cyhoeddi adroddiad y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, 'Low Carbon Wales – Regional Priorities for Action' (http://www.sd-commission.org.uk/publications.php?id=1018 ) yn Nhachwedd 2009. Mae'r gwaith wedi mynd rhagddo ers hynny, gan adlewyrchu'r gwahanol bwyslais sydd ei angen ym mhob ardal. Er enghraifft, mae Canol Cymru yn canolbwyntio i ddechrau ar

gyfleoedd economaidd cysylltiedig ag ynni adnewyddadwy a diogelu'r carbon sydd yn y pridd, ac un o brif flaenoriaethau Map Llwybr Carbon isel De-orllewin Cymru yw datblygu ynni adnewyddadwy'r môr (http://www.sd-commission.org.uk/publications.php?id=1107 ).

## Gwerth Cymru

21. Mae gwerth Cymru yn anelu at sicrhau bod gwariant blynyddol £4.3bn y sector cyhoeddus yn rhoi'r gwerth gorau posibl. Mae Gwerth Cymru wedi gosod gweithio mewn partneriaeth a Datblygu Cynaliadwy yn ganolog i'w ddull o weithio. Lluniwyd polisïau a chanllawiau yn cwmpasu:
    - Mynediad at gyfleoedd sector cyhoeddus i Fusnesau Bach a Chanolig (BBaChau), Sefydliadau Trydydd Sector a Ffatrïoedd a Busnesau a Gynorthwyir;
    - Caffael bwyd, gan gynnwys cyrchu lleol, masnach deg, cynnyrch organig a diogelwch bwyd;
    - Manteision Cymunedol neu "Gymalau Cymdeithasol" mewn contractau sector cyhoeddus ar raddfa eang a;
    - Caffael Gwasanaethau Adeiladu.

    Datblygwyd adnoddau i helpu i brif ffrydio Datblygu Cynaliadwy ar gyfer caffael yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys:
    - Methodoleg Manteision Cymunedol;
    - Agor Drysau: Y Siarter ar gyfer Caffael sy'n Gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig;
    - Y templed Asesu Risg Cynaliadwy (SRA);
    - Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy (SPAF);
    - Cwestiynau Cyffredin Ffatrïoedd a Busnesau a Gynorthwyir;
    - Y contractau cyntaf ar gyfer y sector cyhoeddus cyfan, wedi'u neilltuo ar gyfer Ffatrïoedd a Busnesau a Gynorthwyir;
    - Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID);
    - Rhaglen gaffael electronig cyfnewidcymru, yn ymgorffori GwerthwchiGymru; a
    - Hyfforddiant proffesiynol a seminarau caffael ar bob un o'r uchod.

22. Mae'r polisïau a'r adnoddau a ddatblygwyd wedi cefnogi gwahanol ymrwymiadau "Cymru'n Un", gan sicrhau gwelliannau mewn bwyd a maeth ysbyty, cynlluniau caffael bwyd lleol, gan ei gwneud yn haws i gwmnïau bach lleol ennill contractau llywodraeth ac annog caffael sy'n cymell cyfleoedd hyfforddi i'r di-waith.

23. cyfnewidcymru yw un o dri phrif faes Caffael rhaglen y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi ac mae'n chwarae rhan sylfaenol o ran cyflenwi canlyniadau cynaliadwyedd.

24. Mae'r dulliau hyn hefyd wedi cefnogi elfennau allweddol *Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd*, gan agor cyfleoedd i Fusnesau yng Nghymru a chyfrannu at greu swyddi "gwyrdd" a manteision i economïau a chymunedau lleol.

25. **Prif ffrydio Datblygu Cynaliadwy yn y broses gaffael –** Mae Gwerth Cymru yn gweithio'n agos ag adrannau'r Cynulliad i gysylltu polisi a chaffael mewn meysydd fel datblygu sgiliau, datblygu Busnesau Bach a Chanolig a chynlluniau cyrchu lleol.

Mae'r cydweithio hwn wedi sicrhau ymgysylltu calonogol a sefydlu offerynnau ac egwyddorion caffael cynaliadwy:

- Mae'r defnydd o gymalau "Manteision Cymunedol" wedi cynyddu. Lle gwnaed defnydd medrus o'r rhain o fewn prosiectau adeiladu, mae'r Effaith Lluosi Lleol ar yr economi lleol wedi bod o leiaf 30% yn fwy na'r cyfartaledd ar gyfer y sector adeiladu. Mae Gwerth Cymru yn cefnogi dros 30 o brosiectau gan ddefnyddio'r dull hwn;
- Mae'r holl brif sefydliadau wedi ymrwymo i Agor Drysau. Cyfrannodd hyn at sicrhau bod cyflenwyr yng Nghymru wedi ennill 50% o fusnes sector cyhoeddus erbyn 2008, gan godi o 35% yn 2004;
- Mae cyfnewidcymru wedi helpu i wneud prosesau caffael sector cyhoeddus yn fwy effeithlon ac mae gan GwerthwchiGymru dros 50,000 o gyflenwyr cofrestredig, gyda 28,000 ohonynt wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae is-gontractau yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd drwy'r cyfleuster Haen 1. Er enghraifft, mae Carillion wedi cyhoeddi pump o hysbysebion Haen 1 ar gyfer gwaith adnewyddu Ysgol Cefn Hengoed, a rhagwelir y bydd pump arall yn cael eu cyhoeddi. Mae cyfnewidcymru wedi lleihau'r swm o garbon a phapur a ddefnyddir, gyda thrafodion hyd yn hyn yn arbed 9,122,161 dalen o bapur, sydd gyfystyr â 991 coeden a 59.3 tunnell o garbon; a
- Gwaith ar agor cyfleoedd i gontractwyr adeiladu lleol, gyda busnesau yng Nghymru yn ennill 15 allan o 26 contract mawr yn 2010.

26. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn arwain drwy esiampl yn y meysydd hyn yn y ffyrdd canlynol:
    - Cymhwyso Asesiad Risg Cynaliadwy (SRA) i bob contract dros £25,000;
    - Cynnwys cymalau Manteision Cymunedol mewn contractau mawr fel mater o drefn. Mae hyn wedi annog cyflenwyr i recriwtio a hyfforddi gweithwyr di-waith hirdymor ar gyfer contractau'n cwmpasu Arolwg Cenedlaethol Cymru, Rheoli Cyfleusterau, Dysgu Seiliedig ar Waith a chynlluniau Tlodi Tanwydd. Mae'r trefniadau hyn hefyd yn cynnwys darpariaeth i uchafu cyfleoedd i Fusnesau Bach a Chanolig;
    - Ymgymryd â chontractau cydweithredol ar ran y sector cyhoeddus ehangach. Mae fframwaith argraffu i Gymru gyfan yn gorfodi'r defnydd o bapur wedi'i ailgylchu ac inc wedi'i wneud o lysiau. Penodwyd pedwar ar ddeg o Fusnesau Bach a Chanolig i'r fframwaith. Nodir y trefniant hwn fel patrwm enghreifftiol yng nghyhoeddiad BS8903:2010 *"Principles and framework for procuring sustainable – Guide"*;
    - Neilltuo busnes ar gyfer Busnesau a Gynorthwyir ar gyfer arwyddion yn adeiladau'r Cynulliad yn Aberystwyth a Llandudno ac ailgylchu TG, cefnogi pobl anabl mewn gwaith a chanolbwyntio ar adnewyddu ar gyfer ailddefnyddio, gan arwain at fanteision amgylcheddol ac o ran lles;
    - Rhoi'r Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy (SPAF) ar waith er mwyn gwella perfformiad y Cynulliad o ran caffael, o 2 yn 2008, i 3,5 yn 2010;
    - Mandadu coed o ffynonellau cyfreithlon a chynaliadwy ar gyfer contractau dodrefn; a
    - Cyflwyno bwyd a gynhyrchwyd yn fwy lleol i fwydlenni contractau arlwyo a lleihau ôl troed carbon cyflenwyr.

27. Mae cynnydd calonogol ar droed a chydnabyddir bod Cymru'n arwain y ffordd ym maes caffael cynaliadwy. Yr her yw cynnal y momentwm wrth i'r hinsawdd economaidd wneud penderfyniadau caffael yn gynyddol anodd. Bydd y ffocws yn y

lle cyntaf ar *Adnewyddu'r Economi* drwy ei gwneud yn haws i gyflenwyr bach lleol ennill mwy o gontractau sector cyhoeddus, a thrwy hynny ddod â gwell manteision i gymunedau ac economïau lleol.

**Strategaeth Leoli**

28. Gwireddwyd ymrwymiad Cymru'n Un i fwrw ymlaen gydag adleoli is-adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru i Ogledd Cymru, Gorllewin Cymru a Chymoedd De Cymru drwy gwblhau'r Strategaeth Leoli. Agorwyd swyddfa Merthyr Tudful yn 2006, swyddfa Aberystwyth yn 2009 ac agorodd Prif Weinidog Cymru swyddfa Cyffordd Llandudno yn swyddogol ar 23 Medi 2010.

29. Amcanion strategol y Strategaeth Leoli oedd cynyddu mynediad at wasanaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru, sbarduno twf economaidd yn yr ardal leol, creu gwell amgylchedd gwaith a chefnogi'r agenda datblygu cynaliadwy. O'r cychwyn, felly, mae cynaliadwyedd wedi gyrru'r gwaith o gynllunio ac adeiladu'r swyddfeydd newydd, gan bennu safonau amgylcheddol uchel yn y camau dylunio ac adeiladu. Yn sgil hyn mae pob un o'r tair swyddfa wedi ennill statws 'Rhagorol' BREEAM, a swyddfa Cyffordd Llandudno hefyd yn derbyn Tystysgrif Perfformiad Ynni graddfa 'A', sef yr adeilad sy'n gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o ynni ar ystad Llywodraeth Cynulliad Cymru.

30. Mae'r swyddfeydd newydd yn cynnwys nifer o elfennau cynaliadwy ac adnewyddadwy megis casglu dŵr llwyd, paneli solar, tyrbin gwynt, awyru naturiol a goleuadau sensor. Roedd mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus hefyd yn faen prawf allweddol wrth ddewis safleoedd ar gyfer y swyddfeydd newydd a datblygwyd cynlluniau teithio penodol i'r lleoliad mewn ymgynghoriad â darparwyr teithio ac awdurdodau lleol. Er enghraifft, mae safle bws dynodedig yn safle swyddfa Cyffordd Llandudno.

31. Mae sefydlu'r swyddfeydd newydd hyn hefyd wedi caniatáu ar gyfer gwaredu hen swyddfeydd llai effeithlon, gan arwain at ostyngiad sylweddol yn allyriadau carbon Llywodraeth y Cynulliad. Yn y pen draw, bydd swyddfa Cyffordd Llandudno yn caniatáu ar gyfer gwaredu 12 eiddo. Rhagwelir y byddwn yn arbed oddeutu £940,000 y flwyddyn mewn costau rhedeg adeiladau, gyda gostyngiad blynyddol o 890,000kg mewn allyriadau C02.

32. Mae defnydd cynyddol o gyfleusterau fideogynadledda wedi arwain at ddefnydd mwy effeithiol o amser, wedi gostwng costau teithio a lleihau ein hôl troed carbon. Rhwng Chwefror 2010 a Mai 2010 arbedwyd 28.2 wythnos waith o amser a 17067kg mewn allyriadau $CO_2$ drwy ddefnyddio cyfleusterau fideogynadledda.

**Gweithio Cydgysylltiedig**

33. Wrth ddrafftio'r papur hwn, cyfeiriodd swyddogion at waith a gafodd ei ddatblygu a/ neu'i gyflenwi mewn partneriaeth ar draws yr Adrannau a'r Is-adrannau canlynol:
- Yr Adran Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus
- Yr Adran Cyllidebu Strategol, Cyllid a Chynllunio
- Yr Adran Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol
- Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

**Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb**
**Ionawr 2011**